Cynigion ar gyfer rheoli risg trafnidiaeth y gweithle - map llwybr.

Dogfen Ymgynghori.

CYNNWYS

Tudalen

3 Crynodeb
4 Datganiad HSE ar Fod yn Agored
5 Cyflwyniad i'r broses Ymgynghori
6 Cefndir i'r Map Llwybr Arfaethedig
8 Enwau cyswllt ar gyfer ymatebion ac ymholiadau
9 Datganiad ar Gyfrinachedd HSE
10 Manylion cyswllt os byddwch yn dymuno cwyno

ATODIADAU

Tudalen

11 Atodiad A: Y cynigion yn llawn

19 Atodiad B: Asesiad Effaith Reoleiddiol (Cyn yr Ymgynghoriad)

30 Copi o'r holiadur

CRYNODEB

Mae'r Ddogfen Ymgynghori (DY) hon yn nodi cynigion y Comisiwn Iechyd a Diogelwch (HSC) ar gyfer rheoli risg trafnidiaeth y gweithle ym Mhrydain Fawr drwy fap llwybr sy'n rhoi cyfeiriadau clir drwy benawdau pwnc a nodir gan randdeiliaid i reoliadau presennol ac i ganllawiau.

Nod y map llwybr yw helpu rheolwyr i ddeall a rheoli risg trafnidiaeth y gweithle. Mae'n nodi'r pedwar prif faes i'w hystyried fel rhan o'r asesiad risgiau:

- Cynllun a dyluniad y safle
- Dewis cerbydau a'u cynnal a'u cadw
- Materion personél
- Cyfrifoldebau rheolwyr

Mae'r map llwybr yn disgrifio'r elfennau sylfaenol o ran yr hyn sydd angen i gyflogwyr ei wneud er mwyn rheoli'r gwaith yn ddiogel ar gyfer y meysydd hyn. Yn ogystal, mae'n rhoi argymhellion ar gyfer gwelliannau ymarferol yn y meysydd hyn. Bydd y map llwybr yn rhoi fframwaith i gyflogwyr a gweithwyr allu deall rôl y rheoliadau a chanllawiau presennol sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth y gweithle. Bydd hyn yn rhoi'r sail ar gyfer system gyfeirio hawdd. Pan gaiff y map llwybr ei gyhoeddi bydd yn cynnwys canllawiau ategol yn rhoi cyngor ar sut i fodloni'r gofynion a nodir ganddo. Nid yw'r canllawiau wedi'u cynnwys yn y ddogfen ymgynghori hon gan fod llawer ohonynt yn bodoli eisoes ac wedi'u cyhoeddi, er enghraifft HSG136; nid yw'n fwriad gennym ddyblygu canllawiau defnyddiol da neu roi canllawiau newydd yn eu lle. Yn hytrach, byddwn yn darparu cysylltiadau clir o'r map llwybr i'r canllawiau presennol a rhoi canllawiau newydd i lenwi unrhyw fylchau.

Bydd map llwybr trafnidiaeth y gweithle yn gymwys i **bob** sector diwydiant.

Nod HSC yw bod y map llwybr arfaethedig yn cyflawni amcanion ymarferoldeb a chyfrannedd. Os nad yw, neu os bydd problemau cymhwysiad ymarferol nad ydynt wedi'u nodi, hoffai'r HSC glywed gennych mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn.

Mae nifer o gwestiynau allweddol wedi'u cynnwys yn y Ddogfen Ymgynghori, a cheisiwn eich sylwadau ar y cwestiynau hynny.

Gallwch gael mynediad at fersiwn electronig o'r holiadur drwy wefan yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE). Fel arall, gallwch lwytho copi o'r holiadur i lawr o'r wefan, a gallwch ei gyflwyno drwy'r wefan. **Rhoddir rhagor o fanylion ar ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar dudalen 7.**

Caiff pob ymateb ei gydnabod, a chynhyrchir crynodeb o'r prif faterion a godwyd pan fydd y cyfnod ymgynghori wedi'i gwblhau.

DATGANIAD HSE AR FOD YN AGORED

Mae'r HSC yn ceisio gwneud ei weithdrefn ymgynghori mor drylwyr ac agored â phosibl. Caiff ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori hon eu nodi yng Nghanolfan Wybodaeth yr HSE ar ôl diwedd y cyfnod ymgynghori lle gall aelodau o'r cyhoedd eu harchwilio neu gellir eu hanfon atynt ar ôl iddynt dalu'r ffi briodol i gwmpasu costau.

Gwahoddir ymatebion i'r Ddogfen Ymgynghori hon ar y sail bod unrhyw un sy'n eu cyflwyno yn cytuno y cânt eu trin yn y ffordd hon. Dim ond ar gais penodol y person sy'n eu gwneud y caiff ymatebion, neu ran ohonynt, eu cadw yn ôl o'r Ganolfan Wybodaeth (o dan y Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth y Llywodraeth; Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 1992 a Deddf Diogelu Data 1998). Mewn achosion o'r fath rhoddir nodyn yn y mynegai i'r ymatebion yn nodi'r rhai hynny sydd wedi rhoi sylwadau ac wedi gofyn i'w safbwyntiau, neu ran ohonynt, gael eu trin yn gyfrinachol.

CYFLWYNIAD I'R BROSES YMGYNGHORI

1. Cred yr HSC fod ymgynghori â rhanddeiliaid yn sicrhau ymagwedd agored a thryloyw at wneud penderfyniadau, sy'n hanfodol os bydd gan bolisïau a phenderfyniadau berchnogaeth eang a'u bod yn adlewyrchu anghenion a dyheadau'r bobl y byddant yn effeithio arnynt. Yna bydd y Comisiwn yn penderfynu ar y ffordd orau ymlaen, yn seiliedig ar ddehongliad a dadansoddiad o ganlyniadau'r ymgynghoriad.

2. Mae'r Ddogfen Ymgynghori hon yn nodi cynigion yr HSC ar gyfer cael map llwybr ar gyfer trafnidiaeth y gweithle. Bydd y cyfnod ymgynghori yn rhedeg o 1 Mehefin 2006 ac yn cau ar **22 Medi 2006.** Mae'r Ddogfen Ymgynghori hon yn cynnwys nifer o gwestiynau allweddol yr ydym yn ceisio ymateb arnynt, a nodir y rhan yn yr holiadur ar dudalennau 30-37.

3. Bydd ymateb i'r ymgynghoriad hwn yn rhoi cyfle gwirioneddol i chi ddylanwadu ar y ffordd y caiff y cynigion hyn eu datblygu. Gallwch helpu i wneud ein dadansoddiad yn haws drwy gwblhau'r holiadur ar-lein neu drwy lwytho copi o'r holiadur i lawr o'n gwefan a dychwelyd eich ymateb i ni drwy'r wefan. Fodd bynnag, croesewir ymatebion drwy'r post i'r cyfeiriad at ddiwedd y cyflwyniad hwn.

4. Mae'r ymgynghoriad hwn yn gais gwirioneddol am eich safbwyntiau – oherwydd y cymhwysiad eang ei gwmpas o'r cynigion mae angen cymaint o wybodaeth â phosibl arnom er mwyn eu gwneud yn berthnasol ac yn ymarferol yn y byd go iawn. Mae eich sylwadau'n bwysig ac mae hwn yn gyfle i chi ddylanwadu ar y canlyniad os credwch nad ydym wedi taro'r hoelen ar ei phen mewn rhai achosion.

Yr hyn yr hoffem i chi ei wneud

5. Dywedwch wrthym beth yw eich barn am y cynigion hyn. Rhowch eich sylwadau i ni erbyn **22 Medi 2006.** Gellir gwneud ymatebion yn uniongyrchol ar-lein ar wefan yr HSE:

www.hse.gov.uk/workplacetransport/

6. Yn ogystal, rydym wedi cynhyrchu fersiwn electronig o'r holiadur ar ffurf Word. Mae hwn ar gael o'r wefan. Gellir cwblhau'r fersiwn hwn all-lein a'i ddychwelyd drwy'r wefan.

7. Bydd defnyddio'r cyfleuster ymateb ar-lein neu fersiwn Word yr holiadur yn caniatáu i ni ddadansoddi eich ymatebion mor gywir a chyflym â phosibl. Beth bynnag fydd eich dull ateb, peidiwch â theimlo bod yr holiadur yn eich cyfyngu; byddwn yn croesawu unrhyw sylw yr hoffech ei wneud, ar ba bynnag ffurf. Er enghraifft, efallai y bydd gennych sylwadau ar y costau a'r buddiannau a nodir yn yr Asesiad Effaith Reoleiddiol.

8. Cofiwch y byddai'n ddefnyddiol os gallech nodi eich ateb er mwyn inni allu gweld yn hawdd pa gynnig neu ran o gynnig yr ydych yn rhoi sylw arno.

CEFNDIR I'R CYNIGION AR GYFER RHEOLI RISG TRAFNIDIAETH Y GWEITHLE

9. Mae'r rhaglen ar Drafnidiaeth y Gweithle yn rhan o Raglen Gyflenwi Strategol HSE, sef "Fit for Work, Fit for Life, Fit for Tomorrow" (Fit3) sy'n ceisio cyflawni gostyngiad o 5% yn yr achosion o anafiadau angheuol ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gwaith o ddamweiniau trafnidiaeth y gweithle erbyn diwedd blwyddyn ariannol 2007/2008, yn erbyn llinell sylfaen o 2004/05.

10. Yn y tymor hwy, nod yr HSE yw cyflawni gostyngiad o 10% yn yr achosion o anafiadau angheuol ac anafiadau difrifol sy'n gysylltiedig â gwaith erbyn 2010, yn unol â thargedau *Revitalising Health and Safety* o linell sylfaen 1999/2000.

11. Wrth benderfynu ar y ffordd orau o fynd i'r afael â'r dasg, comisiynodd a chasglodd y rhaglen ar drafnidiaeth y gweithle ymchwil i achosion damweiniau trafnidiaeth y gweithle a ffyrdd o'u hatal. Yn ogystal, edrychodd ar brosiectau penodol yn ymwneud â grwpiau diwydiant neu gyflogwyr unigol gyda'r nod o fynd i'r afael â meysydd o anhawster penodol. Mae gwybodaeth am hyn a gwaith arall y rhaglen ar Drafnidiaeth y Gweithle ar gael ar wefan HSE ar:

www.hse.gov.uk/workplacetransport/

12. I ddechrau, arweiniodd y wybodaeth a ddatgelwyd gan y rhaglen inni feddwl am gyflwyno hyfforddiant llymach i yrwyr. Fodd bynnag, dywedodd ein rhanddeiliaid wrth nad oedd hyn yn ddigon. Dywedasant wrthym na fyddai hyn, a dim ond adolygu neu ail-ganolbwyntio'r rheoliadau yn gwneud digon i fynd i'r afael â'r mater gwirioneddol: y diwylliant sy'n ymwneud â gweithio gyda cherbydau.

13. Er bod hyfforddiant yn hanfodol i ddarparu'r sgiliau angenrheidiol i'r unigolyn, datgelodd canfyddiadau ymchwil arall fod agweddau a chredoau yn fwy tebygol o ddylanwadu ar y ffordd y mae unigolion yn dewis perfformio tasg.

14. Atgyfnerthodd hyn yr hyn a grybwyllwyd gan ein rhanddeiliaid: bod angen ffordd o newid y diwylliant mewn sefydliadau.

15. Felly, mae HSE wedi archwilio ffyrdd eraill o symud ymlaen. Archwiliwyd y dulliau a fabwysiadwyd gan rai gweinyddiaethau dramor. Er enghraifft, ystyriwyd y dull deddfwriaethol/safonau deuol a osodwyd gan awdurdodau'r Unol Daleithiau, ond roeddem o'r farn bod hyn yn rhy ragnodol. Yn ogystal, ystyriwyd y safonau lefel uchel a hyrwyddir gan lywodraethau Talaith Awstralia, ond canfuwyd nad yw'r rhain yn darparu'r math o ganllawiau y mae ein rhanddeiliaid yn gofyn amdanynt.

16. Tra roeddem yn gwneud y gwaith hwn, roedd ein cyd-weithwyr yn yr HSE a oedd yn edrych ar straen yn y gweithle yn datblygu cyfres o safonau

rheoli i helpu cyflogwyr a gweithwyr i ymdrin â phroblem straen yn y gweithle. Gan ystyried eu dull llwyddiannus, ymchwiliwyd i pa un ai datblygu fframwaith tebyg ar gyfer ein rheoliadau a'n canllawiau presennol ar ffurf map llwybr ar gyfer Trafnidiaeth y Gweithle fyddai'r ffordd orau ymlaen.

17. Fel cam cyntaf, profwyd y farn hon mewn gweithdai rhanbarthol (Birmingham, Caerdydd, Falkirk, Langley Park, Swydd Durham, Llundain, Newcastle, Nottingham a Warrington) gyda rhanddeiliaid allanol er mwyn datblygu'r cynigion. Roedd y rhain yn seiliedig ar ymarfer peilot yng Nghanolbarth Lloegr a hwyluswyd gan y Labordy Ymchwil Trafnidiaeth (TRL). Roedd y gweithdai hyn yn hynod o boblogaidd ac rydym yn ddiolchgar i'r rhanddeiliaid niferus a roddodd o'uhamser a rhannu eu safbwyntiau mor barod a gonest. Er nad yw enwau'r cyfranogwyr wedi'u datgelu gwyddom ein bod wedi cyrraedd rhanddeiliaid o bob sector, a bod y bobl a fynychodd wedi cwmpasu sbectrwm llawn ein rhanddeiliaid: gweithwyr; gyrwyr; undebwyr llafur; swyddogion Awdurdodau Lleol; hyfforddwyr; rheolwyr diogelwch; cyflogwyr ac academyddion. Gwrandawyd yn agos ar eu safbwyntiau. Mae canlyniadau'r gweithdai diweddar hyn wedi llywio ein ffordd o feddwl am nifer a math y cynigion hyn. Ceir rhagor o fanylion am y gweithdai ar wefan yr HSE yn:

www.hse.gov.uk/workplacetransport

18. Credwn yn awr y bydd map llwybr yn darparu fframwaith hawdd i'w ddeall a hygyrch o'r ddeddfwriaeth, canllawiau ac arferion da presennol y cytunwyd arnynt. Yn ogystal, bydd yn nodi ffyrdd amgen o gydymffurfio lle y mae'r rhain yn bodoli, a ddylai fod yn arbennig o ddefnyddiol ar gyfer Busnesau Bach a Chanolig sydd â nifer o ofynion ond amser ac adnoddau prin. Ar hyn o bryd, mae'r cynigion yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd angen eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr. Gofynnwn am eich sylwadau ar y penawdau pwnc arfaethedig a'r cyflyrau i'w cyflawni a nodir yn y ddogfen ymgynghori hon. Pan gytunir ar y rhain caiff yr arwyddion i ganllawiau ar lefel fanylach eu gweithredu, ac yn y pen draw bydd y rhain yn rhoi cyfeiriadau i ddisgrifiadau manwl o'r isafswm perfformiad sy'n dderbyniol.

19. Nid yw'n fwriad gennym ddefnyddio'r cynigion hyn i ymestyn y gofynion cyfreithiol presennol mewn unrhyw ffordd. Mae safonau diogelwch wedi'u meincnodi sy'n cynrychioli'r safonau gofynnol y bydd arolygwyr yn disgwyl eu gweld ym mhob maes risg trafnidiaeth y gweithle yn cael eu profi gan arolygwyr yn ystod arolygiadau ar sail rhaglen trafnidiaeth y gweithle ar gyfer 2006/07. Cyhoeddir y meincnodau hyn ochr yn ochr â'r map llwybr ar ôl yr ymgynghoriad hwn.

20. Nodir y rhestr lawn o gynigion yn Atodiad A (tudalen 11).

ENWAU CYSWLLT AR GYFER YMATEBION AC YMHOLIADAU

Ymatebion Ar-lein

21. Cofrestrwch ac ewch i dudalennau Rheoli Trafnidiaeth y Gweithle - ymgynghoriad map llwybr drwy ddefnyddio'r cysylltiadau yn
http://consultations.hse.gov.uk/

22. Mae cyswllt uniongyrchol i hafan Rheoli Trafnidiaeth y Gweithle – ymgynghoriad map llwybr:
http://consultations.hse.gov.uk/inovem/consult.ti/wptms/

Ymatebion ar Ffurf Word

23. Mae fersiwn o'r holiadur mewn fformat Word y gellir ei lwytho i lawr ar gael o
http://consultations.hse.gov.uk/

24. Cyswllt uniongyrchol i dudalen lwytho i lawr Rheoli Trafnidiaeth y Gweithle – dogfen map llwybr:
http://consultations.hse.gov.uk/inovem/consult.ti/wptms/listdocuments

25. Ar ôl ei gwblhau all-lein, dylech ddychwelyd eich ymateb drwy'r wefan http://consultations.hse.gov.uk/

Cyswllt uniongyrchol â thudalen lwytho'r ymgynghoriad:
http://consultations.hse.gov.uk/inovem/consult.ti/wptms/xxxxxxxxxx

Ymholiadau Eraill

26. Os bydd gennych unrhyw gwestiynau am y ddogfen ymgynghori hon neu unrhyw bwyntiau y mae angen cymorth arnoch neu sydd angen eu hegluro, cysylltwch â'r canlynol i ddechrau:

Carol Spence
8NW Rose Court,
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS
Ffôn: 020 7 717 6127
E-bost: carol.spence@hse.gsi.gov.uk

DATGANIAD HSE AR GYFRINACHEDD

Os byddwch yn ymateb i'r ddogfen ymgynghori hon o safbwynt personol, yn hytrach na fel deiliaid swydd mewn sefydliad, dylech fod yn ymwybodol y gall y wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chyfrif fel ‘data personol’ yn nhermau Deddf Diogelu Data 1998. At ddibenion y Ddeddf hon, HSE yw'r 'rheolydd data' a bydd yn prosesu'r data at ddibenion iechyd, diogelwch ac amgylcheddol. Efallai y bydd HSE yn datgelu'r data hwn i unrhyw berson neu sefydliad at y dibenion y'u casglwyd, neu lle mae'r Ddeddf yn caniatáu ar gyfer datgelu. Mae gennych yr hawl i ofyn am gopi o'r data a gofyn i ddata anghywir gael ei gywiro.

MANYLION CYSWLLT OS BYDDWCH YN DYMUNO CWYNO

Os na fyddwch yn fodlon â'r fordd y cynhaliwyd yr ymgynghoriad hwn gallwch gwyno drwy gysylltu â rheolwr llinell y personau a enwir yn y ddogfen ymgynghori hon a dylid anfon sylwadau ar y cynigion at y person hwn. Yn yr achos hwn, dyma'r enw cyswllt:

Dr Elizabeth Gibby
Director
Injuries Reduction Programme
Health and Safety Executive
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS
Ffôn: 0207 717 6338
e-bost **liz.gibby@hse.gsi.gov.uk**

Ein nod yw ateb pob cwyn o fewn 10 diwrnod gwaith. Os na fyddwch yn fodlon â chanlyniad eich cwyn, gallwch godi'r mater gyda Phrif Weithredwr HSE – Geoffrey Podger, yn yr un cyfeiriad. Yn ogystal, gallwch ysgrifennu at eich AS i ofyn iddynt fynd ar drywydd yr achos gyda ni. Efallai y bydd eich AS yn cyfeirio'r mater i'r Comisiynydd Seneddol dros Weinyddu (yr Ombwdsmon) a fydd yn ymchwilio i'ch cwyn.

ATODIAD A:

Rheoli Risg Trafnidiaeth y Gweithle - map llwybr [1]

Cyflwyniad

1. Yn y rhan fwyaf o weithleoedd mae'n rhaid gwneud pethau i atal neu reoli'r peryglon (risgiau).

2. Ceisio cael gwared ar risgiau'n gyfan gwbl ddylai fod yn fan cychwyn bob amser. Ar gyfer trafnidiaeth y gweithle gallai hyn olygu dim ond caniatáu i gerbydau gael mynediad i rai rhannau o'r safle neu ar amseroedd penodol o'r dydd. Os nad yw cyfyngiadau fel hyn yn bosibl, y cam nesaf yw meddwl am ffyrdd eraill o ddiogelu pawb sy'n defnyddio'r safle. Er enghraifft, meddwl am osod rhwystrau i gadw cerbydau a cherddwyr ar wahân.

3. Bwriedir i'r map llwybr helpu'r rhai hynny sy'n gyfrifol am weithleoedd a cherbydau i benderfynu pa fath o bethau i'w ystyried a'u rhoi ar waith. Maent yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Cynllun a dyluniad y safle
- Dewis cerbydau a'u cynnal a'u cadw
- Materion personél
- Cyfrifoldebau rheolwyr

Diffiniad

4. Mae trafnidiaeth y gweithle yn cwmpasu unrhyw gerbyd a ddefnyddir mewn lleoliad gwaith. Yn benodol, mae'n eithrio trafnidiaeth ar y briffordd gyhoeddus, trafnidiaeth mewn awyren, trên neu dros y dŵr, a thrafnidiaeth arbenigol a ddefnyddir mewn cloddio tanddaearol.

[1] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

1. Cynllun a Dyluniad y Safle[2]

Lle mae'n rhaid defnyddio trafnidiaeth, mae'n bwysig bod cerbydau a cherddwyr yn gallu gweithio'n ddiogel.

Y cynigion:-

- lle y mae'n bosibl caiff y safle ei drefnu fel bod symudiadau cerbydau'n cael eu dileu neu mor fach â phosibl
- caiff y safle ei adeiladu a'i drefnu er mwyn ei wneud yn ddiogel i'r bobl a'r cerbydau sy'n ei ddefnyddio

Yr hyn ddylai fod yn digwydd / sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylai llwybrau traffig, rhai un ffordd yn ddelfrydol, gael eu cynllunio, dylid cynnwys arwyddion ar eu cyfer a, lle y bo'n bosibl, eu cadw ar wahân i ddrysau, clwydi a llwybrau ar gyfer cerddwyr;
- lle mae cerbydau a cherddwyr yn defnyddio'r un ffyrdd dylid eu gwahanu, gyda phwyntiau croesi priodol wedi'u nodi'n glir a chynnwys arwyddion lle y bo angen;
- dylai ffyrdd traffig osgoi troeon sydyn a mynd heibio i eitemau bregus, e.e. pibelli tanwydd;
- dylid sicrhau bod cyn lleied o gyffyrdd ffyrdd a llwybrau â phosibl gan sicrhau bod arwyddion da ar gyfer rhybuddion o unrhyw rwystrau/peryglon posibl, e.e. lle cyfyngedig uwch ben;
- dylai mynedfeydd traffig fod yn ddigon llydan, yn ddelfrydol i ganiatáu i 2 gerbyd basio ei gilydd;
- dylid pennu terfynau cyflymder sy'n briodol i'r safle a chynnwys arwyddion clir;
- dylid darparu mannau parcio digonol a diogel i'r holl gerbydau sy'n defnyddio'r safle;
- dylai parthau llwytho wedi'u dynodi'n glir gael eu lleoli mewn lleoliadau diogel cyn belled â phosibl;
- lle y bo'n bosibl, dylid adeiladu ffyrdd ac ati o darmacadam, concrit neu ddeunydd addas arall a darparu arwyneb sefydlog ar gyfer symudiadau a gweithredoedd cerbydau;
- dylai'r holl ffyrdd ac ardaloedd mannau (yn cynnwys safleoedd gwaith dros dro) lle ceir symudiadau traffig gael eu goleuo'n ddigonol;
- lle caiff arwyddion ac ati eu defnyddio dylid eu hadeiladu yn ôl safonau Rheolau'r Ffordd Fawr.

[2] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

2. Dewis cerbydau a'u cynnal a'u cadw[3]

Mae'n rhaid i gyflogwyr a deiliaid dyletswyddau sicrhau bod yr holl gerbydau a ddefnyddir yn addas ar gyfer y gwaith. Yn ogystal, mae'n rhaid iddynt sicrhau eu bod yn cael eu cynnal a'u cadw a'u harchwilio'n gywir.

Y cynigion:-

- wrth ddewis cerbydau mae'n rhaid i gyflogwyr ac eraill sicrhau eu bod yn ddiogel ac y caniateir i'w defnyddio ym Mhrydain Fawr.
- mae'n rhaid i gyflogwyr sicrhau y gall cerbydau wneud y gwaith sy'n ofynnol ganddynt;
- dewisir cerbydau sy'n ddiogel i'w cynnal a'u cadw.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd / sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylai cerbydau fod yn sefydlog waeth beth fydd y gwaith byddant yn ei wneud;
- dylai fod yn bosibl i yrwyr fynd i mewn i'r caban ac allan ohono yn ddiogel ac yn hawdd;
- dylai gyrwyr allu cyrraedd unrhyw ran o'r cerbyd y mae angen iddynt ei chyrraedd yn ddiogel ac yn hawdd;
- dylai gyrwyr allu gweld cymaint â phosibl o'u cabanau;
- lle yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol dylid gosod cyrn, goleuadau a dyfeisiau eraill;
- dylai fod gan gerbydau seddi, a gwregysau diogelwch neu ataliadau eraill, sy'n ddiogel ac yn gyfforddus ac yn bodloni anghenion y gwaith;
- dylid diogelu pobl rhag dod i gysylltiad â rhannau peryglus o'r cerbyd;
- dylai cerbydau fod yn addas ar gyfer unrhyw lwythi y maent yn eu cario. Dylai fod ganddynt fannau cryf addas er mwyn sicrhau bod eu llwythi'n cael eu cario'n ddiogel;
- dylai cerbydau sicrhau diogelwch rhag tywydd gwael, eithafion tymheredd, baw, llwch a llidau ac ati;
- os bydd angen dylai fod gan gerbydau gyfarpar diogelwch rhag rholio ac ataliadau i atal anafiadau pe byddai'r cerbyd yn troi drosodd;
- dylai fod yn bosibl atal cerbydau rhag symud, er enghriafft, drwy ddefnyddio'r breciau a thynnu'r allweddi allan;
- lle maent wedi'u gosod, dylid gwirio teiars, goleuadau a dangosyddion ac ati ar ddechrau pob sifft.

[3] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

3. Personél

3.1 Cymhwysedd[4]

Sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu gwaith yn ddiogel.

Y cynigion:

- mae angen i weithwyr gael eu hyfforddi yn ôl safonau cydnabyddedig os yn bosibl;
- mae angen i allu gweithiwr i yrru'n ddiogel gael ei asesu'n rheolaidd;
- dylid rhoi hyfforddiant gloywi os ystyrir bod hyn yn briodol;
- bydd lefel yr oruchwyliaeth yn dibynnu ar allu.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd / sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylid asesu gallu gweithiwr cyn rhoi caniatâd iddynt yrru. Dylid cynnig hyfforddiant lle y bo'n briodol;
- dylai'r awdurdod cyhoeddi wirio'r wybodaeth ar dystysgrifau a chymwysterau ac ati a ddelir gan weithwyr newydd er mwyn sicrhau eu bod yn ddilys;
- dylai cyflogwyr annog gweithwyr i geisio am y cymwysterau priodol a'u pasio;
- mae angen polisi ar wirio gallu. Dylai'r polisi nodi pryd y dylai'r prosesau gwirio hyn ddigwydd a pha mor aml y dylent ddigwydd. Dylai'r un peth fod yn berthnasol ar gyfer hyfforddiant gloywi;
- dylid ystyried rhoi hyfforddiant cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r gweithle bob amser. Efallai y bydd angen hyfforddiant oherwydd y ceir cerbydau newydd neu newid yn y ffordd y gwneir y gwaith. Yn ogystal, gallai fod yn ofynnol oherwydd bod gweithiwr wedi datblygu anabledd;
- dylid sicrhau bod rhyw fath o oruchwyliaeth ar bob adeg. Gall sgiliau a gwybodaeth ddirywio dros amser os na caiff arferion da eu hatgyfnerthu.

[4] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

3.2 Addasrwydd i Yrru[5]

Y nod yw sicrhau bod gyrwyr/gweithredwyr yn gwbl addas i yrru/gweithredu peiriannau, a'u bod yn deall eu dyletswyddau cyfreithiol o ran addasrwydd i yrru.

Y cynigion:-

- caiff safonau ffitrwydd meddygol ar gyfer pob gyrrwr eu sefydlu a'u deall yn glir gan yr holl gyflogwyr/cyflogeion/gweithwyr hunangyflogedig;
- mae systemau ar waith i sicrhau bod safonau addasrwydd y cytunwyd arnynt ar gyfer unigolion yn cael eu cynnal;
- mae systemau ar waith yn lleol i ymateb i anghenion unigolion sy'n newid.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd/sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylid llunio safonau meddygol (corfforol a meddyliol) gan ddefnyddio'r canllawiau a ddarparwyd gan HSE ac, os yw'n angenrheidiol, gyda chyngor gan ymarferwr iechyd galwedigaethol;
- dylid gwneud asesiad o bob cyflogai newydd cyn iddynt ddechrau gweithio er mwyn sicrhau bod y safonau hyn yn cael eu bodloni o'r dechrau;
- sicrhau bod y safonau'n cael eu cynnal drwy'r cyfnod cyflogaeth gan systemau rheoli sy'n cynnwys asesiadau addasrwydd rheolaidd, monitro absenoldeb oherwydd salwch, a goruchwyliaeth rheolwyr llinell;
- mewn ymgynghoriad â staff, dylid datblygu polisi ar y defnydd o gyffuriau ac alcohol; dylai hyn gynnwys tystiolaeth bod profi ar hap wedi'i ystyried. Dylai'r datganiad polisi gynnwys systemau i unigolion gofnodi defnydd o feddyginiaeth ar bresgripsiwn ac 'oddi ar y silff' eu hunain;
- dylai cyflogwyr sicrhau bod lefelau addasrwydd y gyrrwr yn cyfateb â thasgau gyrru priodol;
- dylid cymryd gofal i sicrhau na fydd pobl ag anableddau o dan anfantais yn ddiangen;
- dylid rhoi gwybodaeth diogelwch i gyflogeion am y cynnyrch a ddefnyddir ganddynt neu y gallant ddod i gysylltiad â hwy yn ystod eu gwaith, yn arbennig os bydd y cynnyrch yn beryglus;
- dylai cyflogeion wybod am leoliad cyfarpar diogelwch, a derbyn gwybodaeth ddigonol i weithredu unrhyw gyfarpar o'r fath, y gall fod yn ofynnol iddynt ei ddefnyddio yn ystod eu gwaith e.e. pecyn cymorth cyntaf, cadeiriau gwagio ac ati.

[5] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

3.3 Gyrwyr/Gweithredwyr sy'n ymweld a Gyrwyr/Gweithredwyr yr Asiantaeth[6]

Er mwyn sicrhau bod gyrwyr sy'n ymweld a gyrwyr yr asiantaeth wedi'u hyfforddi ac yn gymwys i wneud eu gwaith a sicrhau eu bod yn addas i yrru ac yn deall yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud o dan gyfraith iechyd a diogelwch.

Y cynigion:-

- mae'r gyrwyr yn gwybod beth i'w wneud ac maent yn gymwys i yrru/gweithredu'r cerbydau a roddwyd iddynt i wneud y gwaith;
- mae'r gyrwyr yn addas i yrru a chaiff y lefelau addasrwydd gofynnol eu cadw.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd/sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylid gwirio tystysgrifau ac ati a ddelir gan yrwyr newydd er mwyn sicrhau bod eu cymwysterau'n ddilys;
- dylid asesu gallu gweithiwr cyn rhoi caniatâd iddynt yrru. Dylid cynnig hyfforddiant lle y bo'n briodol;
- dylai pob gweithiwr newydd gael asesiadau ffitrwydd cyn cynnig gwaith iddynt. Mae hyn er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn gwaith y maent yn gallu ei wneud;
- dylai gyrwyr wybod yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud o dan gyfraith iechyd a diogelwch;
- dylai gyrwyr wybod beth yw'r arwyddion a'r signalau diogelwch;
- dylai gyrwyr ddeall digon o Saesneg er mwyn iddynt allu gweithio'n ddiogel;
- dylid rhoi gwybodaeth iechyd a diogelwch i yrwyr. Os byddant yn cael anhawster deall Saesneg dylai hyn fod yn eu hiaith eu hunain.

[6] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

4. Cyfrifoldebau rheolwyr

4.1 Rheolwyr ac asesiad risgiau[7]

Sicrhau bod deiliaid dyletswyddau yn gwybod beth yw eu peryglon/risgiau yn eu gweithleoedd a'u bod yn gweithredu er mwyn eu hatal neu eu rheoli.

Y cynigion:

- dylai deiliaid dyletswyddau gynnal asesiadau risg a'u monitro;
- dylai pawb wybod yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud a chyflawni hyn.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd / sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylid annog pawb i wella iechyd a diogelwch.
- ni ddylai gweithwyr dderbyn arferion anniogel;
- caiff rheolaethau a nodir yn yr asesiad risgiau eu cyflwyno a'u monitro gan gyflogwyr mewn cysylltiad â'r gweithlu;
- dylai unrhyw gontract nodi'r angen i weithwyr weithredu'n ddiogel. Yn ogystal, dylai nodi'n glir y cosbau ar gyfer y rhai hynny nad ydynt yn gweithredu'n ddiogel;
- caiff gofynion iechyd a diogelwch eu nodi ar y cam contract. Dylid cyfathrebu'r rhain i bawb dan sylw, yn cynnwys gyrwyr yr asiantaeth a gyrwyr dan gontract;
- dylid gwirio er mwyn sicrhau bod gyrwyr yr asiantaeth, gweithwyr o dan gontract a gyrwyr dosbarthu yn bodloni'r gofynion diogelwch;
- dylai deiliaid dyletswyddau wybod pa gamau gweithredu i'w cymryd pan fydd gweithwyr yn methu â gweithio'n ddiogel;
- dylid ystyried iechyd a diogelwch cyn gwneud unrhyw newidiadau i'r gweithle bob amser. Gall y newidiadau hyn fod oherwydd y ceir cerbydau newydd neu newid yn y ffordd y gwneir y gwaith. Yn ogystal, gallai fod yn ofynnol oherwydd bod rhywun wedi datblygu anabledd.

[7] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

4.2 Cysylltiadau[8]

Y nod yw sicrhau bod:

- deiliaid dyletswyddau yn cynnwys gweithwyr (neu gynrychiolwyr diogelwch) wrth wneud penderfyniadau am iechyd a diogelwch;
- gwybodaeth am iechyd a diogelwch wedi'i diweddaru ac yn cael ei dosbarthu'n rheolaidd;
- cydweithredu'n digwydd pan gaiff gweithle ei rannu er mwyn sicrhau bod pawb yn ddiogel.

Y cynigion:-

- dylai gweithwyr dderbyn gwybodaeth am sut i weithio'n ddiogel;
- dylai gweithwyr a deiliaid dyletswyddau gydweithredu ar faterion sy'n ymwneud ag iechyd a diogelwch.

Yr hyn ddylai fod yn digwydd / sefyllfaoedd i'w cyflawni:

- dylai asesiadau risgiau ddangos pa wybodaeth sydd ei hangen a phryd;
- dylid edrych ar adroddiadau ar ddamweiniau er mwyn dangos beth aeth o'i le a lle y gellid gwella pethau;
- dylid gofyn i weithwyr am eu barn;
- dylai deiliaid dyletswyddau a gweithwyr gydweithredu ynglŷn â gweithio'n ddiogel;
- dylai gweithwyr wybod yr hyn sy'n rhaid iddynt ei wneud o dan gyfraith iechyd a diogelwch;
- dylai fod gan weithwyr y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i weithio'n ddiogel, yn cynnwys gwybodaeth am y cynnyrch a ddefnyddir ganddynt neu y gallant ddod i gysylltiad â hwy yn ystod eu gwaith, yn arbennig os gall y cynnyrch fod yn beryglus;
- efallai y bydd angen cymorth a gwybodaeth ychwanegol ar weithwyr ifanc, newydd ac anabl;
- yn ogystal, efallai y bydd angen cyngor ychwanegol ar gydnabod eu cyfyngiadau corfforol ar weithwyr wrth iddynt fynd yn hŷn.

[8] Mae hyn yn gymysgedd o ofynion rheoliadol ac arferion da presennol y bydd yn rhaid eu nodi'n glir cyn gweithredu'r map llwybr

ATODIAD B : ASESIAD EFFAITH REOLEIDDIOL CYCHWYNNOL (Cyn yr ymgynghoriad)

DIBEN A'R EFFAITH FWRIADEDIG

Mater

1. Mae Map Llwybr Trafnidiaeth y Gweithle yn rhoi fframwaith ar gyfer cyfres o ganllawiau wedi'u hanelu at wella cymhwysedd gweithredwyr a goruchwylwyr. Yn ogystal, mae'n pennu meincnodau sy'n disgrifio arfer diogel. Ei nod yw lleihau nifer y damweiniau drwy ddylanwadu ar agweddau a chredoau, h.y. y ffordd y mae unigolion yn dewis gwneud tasg. Trafnidiaeth y Gweithle yw'r ffactor uchaf ond un sy'n lladd gweithwyr mewn diwydiannau ym Mhrydain Fawr o hyd a datgelodd ymchwil fod angen ffordd o newid y diwylliant diogelwch mewn sefydliadau.

Amcanion

2. Nod cyflwyno'r Map Llwybr yw lleihau damweiniau sy'n digwydd o ganlyniad i weithrediadau trafnidiaeth y gweithle drwy fynd i'r afael â phob agwedd ar waith sy'n cynnwys cerbydau a'r cerddwyr o amgylch y cerbydau hynny, yn cynnwys y ffordd y caiff y gwaith ei gynllunio, ei drefnu a'i reoli. Er mwyn gwneud hyn mae'r Map Llwybr yn cwmpasu'n benodol:
   - hyfforddiant a chymhwysedd
   - gyrwyr sy'n ymweld a gyrwyr yr asiantaeth
   - addasrwydd i yrru
   - darpariaeth gwybodaeth
   - asesiad risgiau a chyfrifoldebau'r rheolwyr
   - cynllun y gweithle
   - cyfranogiad a chanllawiau

<u>Yr opsiynau a ystyriwyd</u>

3. Yn ei gyfarfod ym mis Chwefror 2004, gofynnodd HSC i HSE ystyried dulliau nad ydynt yn rhai rheoliadol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

Opsiwn 1: Gwneud dim byd

Mae hwn yn anodd ei amddiffyn o ystyried nifer y marwolaethau a'r anafiadau a achosir gan Drafnidiaeth y Gweithle. Ni chredwn y bydd camau eraill i leihau'r niferoedd hyn, megis gorfodi wedi'i dargedu, yn effeithiol heb y Map Llwybr.

Opsiwn 2: Cyflwyno rheoliadau newydd sy'n benodol i drafnidiaeth y gweithle

Mae'r HSC eisoes wedi ystyried yr opsiwn hwn yn fanwl a phenderfynwyd ei fod yn rhy ddrud ac yn rhy feichus i ddiwydiant, ac na fyddai o reidrwydd yn arwain at leihad pellach mewn marwolaethau ac anafiadau ar ei ben ei hun.

Opsiwn 3: Gosod y dull deddfwriaethol/safonau deuol a osodir gan awdurdodau'r Unol Daleithiau.

Mae hwn yn rhy ragnodol ar gyfer y dull rheoliadol presennol ym Mhrydain Fawr ac mae amcangyfrifon yn awgrymu y byddai'n rhy gostus i fusnesau bach.

Opsiwn 4: Gosod safonau lefel uchel fel y rhai a hyrwyddir gan lywodraethau Taleithiau Awstralia.

Nid yw'r rhain yn darparu'r lefel o arweiniad y gwnaed cais amdani gan ein rhanddeiliaid sydd ar hyn o bryd yn rheoli risg trafnidiaeth y gweithle ac ni fyddai'n gwneud unrhyw beth i ddatrys y problemau a brofir gan ein hymgynghoreion busnesau bach o ran peidio â gwybod lle i ddechrau.

Opsiwn 5: Map Llwybr ar gyfer rheoli'r risgiau i drafnidiaeth y gweithle

Credwn mai dyma'r ffordd orau ymlaen. Bydd y Map Llwybr yn darparu'r fframwaith a meincnodau cyffredin y gofynnwyd inni amdanynt, a darparu llwybrau clir i'r canllawiau manylach ar ffyrdd amgen o reoli'r risgiau sy'n cael eu datblygu, a chânt eu cysylltu â'r Map Llwybr ar ôl yr ymgynghoriad. Yn ystod y cylch cychwynnol o ymgynghori â rhanddeiliaid gofynnwyd i ddirprwyon am eu barn ar y cynigion. Roedd y farn hon yn amrywio o dderbyniad cyffredinol o'r egwyddor i gefnogaeth lwyr ar gyfer y cysyniad a'r cyfeiriad yr oedd HSE yn ei gymryd wrth reoli risgiau trafnidiaeth y gweithle.

<u>Gwybodaeth gefndir a rhagdybiaethau</u>

4. Cafwyd gwybodaeth am gostau a buddiannau Map Llwybr Trafnidiaeth y Gweithle gan weithdai rhanddeiliaid ac o fewn HSE. Cymerwyd gwybodaeth am enillion o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion, a gyhoeddwyd gan Y Swyddfa Ystadegau Gwladol (ONS). Daw data ar nifer y damweiniau trafnidiaeth y gweithle o ffynonellau HSE a daw'r wybodaeth ar nifer y gweithwyr a gyflogir yn y galwedigaethau perthnasol o'r Arolwg o'r Llafurlu (LFS), a gyhoeddir gan yr ONS. Cymerwyd y data ar nifer y sefydliadau ym Mhrydain Fawr o ffigurau a gyhoeddir gan y Gwasanaeth Busnesau Bach.
5. Mae rhai o'r costau ychwanegol i sefydliadau yn gostau cyfleoedd a adlewyrchir gan y golled o ran allbwn o ganlyniad i gynnal gweithgarwch i fodloni'r canllawiau a nodir gan y Map Llwybr, e.e. hyfforddiant wagen godi achrededig ar gyfer gyrrwr wagenni codi nofis. Tybir bod y golled o ran allbwn fwy neu lai'n gyfwerth â'r amser a dreuliwyd ar gynnal y dyletswyddau newydd wedi'i luosi gan yr enillion ar gyfartaledd (gan ychwanegu 30% ar gyfer costau pensiynau a chyfraniadau yswiriant gwladol gan gyflogwyr). Mewn termau economaidd, tybiwyd bod cost llafur ymylol yn gyfwerth â'i gost ar gyfartaledd.

6. Mae tua 4.3 miliwn o fusnesau ym Mhrydain Fawr.[9]O'r rhain mae gan tua 1.2 miliwn gyflogeion. Mae'n debygol y bydd y Map Llwybr yn effeithio ar y ddau grŵp hyn o fusnesau mewn ffyrdd gwahanol, felly ystyrir y ddwy boblogaeth yn wahanol. Er bod gan y rhan fwyaf o fusnesau rywfaint o weithgarwch trafnidiaeth y gweithle, tybiwn na ddaw 25% o fewn cwmpas y Map Llwybr.
7. Amcangyfrifwyd y gall rhai rhannau o'r Map Llwybr effeithio ar tua 2 filiwn o yrwyr.
8. Mae Costau a Buddiannau wedi'u cynnwys â gostyngiad yn unol â chanllawiau'r Trysorlys. Rhoddwyd gostyngiad costau ar gyfradd o 3.5% ac mae buddiannau iechyd a diogelwch wedi'u huwchraddio 2% ac yna gostyngiad o 3.5%, gan roi cyfradd ostyngiad o 1.5%. Cyfrifir costau a buddiannau dros gyfnod o ddeng mlynedd a'u mynegi yn nhermau eu gwerth presennol. Mae'r holl gostau a buddiannau yn cynnwys gostyngiad yn ôl i flwyddyn sylfaen, sef 2005. Nid yw'r dewis blwyddyn sylfaen yn effeithio ar y balans costau a buddiannau, na chasgliadau'r dadansoddiad hwn.

BUDDIANNAU

Buddiannau Iechyd a Diogelwch

9. Yn 2004/05 roedd 70 o farwolaethau i weithwyr ac aelodau'r cyhoedd a achoswyd gan ddamweiniau trafnidiaeth y gweithle. Yn ogystal, roedd tua 5000 o anafiadau difrifol ac 8000 o fân anafiadau.[10] Rhagwelir y bydd rhai o'r opsiynau a gyflwynir yma yn arwain at atal rhai o'r damweiniau hyn.
10. Er mwyn cyflwyno'r posibiliadau hyn mewn ffordd a all fod yn ystyrlon o gymharu â'r costau tebygol sy'n gysylltiedig â'r opsiynau, ategwyd gwerth ariannol i bob damwain a gafodd ei hatal. Mae'r ffigurau hyn yn cynrychioli amcangyfrif o'r gwerth cynhenid a roddir gan gymdeithas o ran atal damweiniau "cyffredin". Mae'r gwerth hwn yn cynnwys y costau uniongyrchol sy'n gysylltiedig â digwyddiad (er enghraifft, costau triniaeth feddygol), gwerth allbwn cynhyrchiol a gollwyd a mesur o'r costau goddrychol, y cyfeirir atynt yn aml fel "poen, gofid a dioddefaint" yn sgîl y digwyddiad. Ceir rhagor o wybodaeth ar yr ymagwedd hon ar wefan yr Adran Drafnidiaeth.[11]

---

[9] Dim ond ar gyfer y DU gyfan y rhoddir yr ystadegau diweddaraf a gyhoeddwyd gan y Gwasanaeth Busnesau Bach (http://www.sbs.gov.uk/). Er mwyn cyrraedd ffigur ar gyfer Prydain Fawr, mae'r ffigurau rhanbarthol diweddaraf (2003) sydd ar gael ar gyfer Gogledd Iwerddon wedi'u tynnu o'r ffigurau diweddaraf (2004) ar gyfer y DU.

[10] Mae'r ystadegau damweiniau yn y ddogfen hon wedi'u haddasu er mwyn ystyried y ffaith na chyflwynir adroddiad ar bob damwain i'r HSE. Ceir rhagor o wybodaeth yn http://www.hse.gov.uk/statistics/overpic.htm, yn arbennig yn y cyhoeddiad “Health and Safety Statistics 2004/05”

[11] http://www.dft.gov.uk/stellent/groups/dft_rdsafety/documents/page/dft_rdsafety_610642.hcsp

Math o achos	Gwerth Atal
Marwolaethau	£1,450,000
Anafiadau difrifol	£40,000
Anafiadau dros gyfnod o dri diwrnod[12]	£6,000

Tabl 1: Gwerthoedd ariannol o ran atal gwahanol fathau o ddigwyddiadau.[13]

11. Yn ogystal, dangosodd ymchwil HSE y gall cost difrod i gyfarpar a difrod strwythurol o ganlyniad i ddamweiniau trafnidiaeth y gweithle fod yn sylweddol. Fodd bynnag, nid yw'r costau hyn wedi'u meintioli.

12. Ni wyddir yn union pa gyfran o ddamweiniau y gellid eu hatal os caiff y Map Llwybr ei gyflwyno a'i hyrwyddo. At ddibenion yr RIA hwn tybir y bydd gostyngiad o rhwng deg ac ugain y cant yn niferoedd y damweiniau yn sgîl trafnidiaeth y gweithle. Cyflwynir y buddiannau a gynhyrchir, fesul blwyddyn, o'r senarios hyn yn Nhabl 2.

	Damweiniau Trafnidiaeth y Gweithle a Ataliwyd	
	10%	20%
Marwolaethau:	£10,100,000	£20,200,000
Anafiadau difrifol:	£21,000,000	£42,100,000
Anafiadau dros gyfnod o 3 Diwrnod:	£4,300,000	£8,500,000
Cyfanswm:	£35,000,000	£71,000,000

Tabl 2: Buddiannau blynyddol atal damweiniau

13. Mae gwerth presennol y buddiannau hyn dros y cyfnod arfarnu deng mlynedd fel a ganlyn. O ystyried gostyngiad o 10% mewn damweiniau, cyfanswm y buddiannau yw £332 miliwn, neu £35 miliwn fel ffigur blynyddol.[14] Byddai gostyngiad o 20% mewn damweiniau yn rhoi buddiannau net o £663 miliwn (£71 miliwn y flwyddyn).

COSTAU

14. Ni ddisgwylir y bydd nifer o'r gofynion a nodir gan y Map Llwybr yn cael effaith sylweddol ar gost ar sail sefydliadau unigol, gan ei bod yn annhebygol y bydd yn rhaid i sefydliadau sydd eisoes yn defnyddio arfer

[12] Mae hwn yn gategori HSE i nodi anafiadau lle mae gweithiwr i ffwrdd o'u gwaith am dros dri diwrnod ac fe'i defnyddir fel procsi ar gyfer "mân" anafiadau.

[13] Caiff y gwerthoedd ar gyfer anafiadau difrifol ac anafiadau dros gyfnod o dri diwrnod (“O3D”) eu cynhyrchu drwy uwchraddio'r ffigurau a roddir yn “The Costs to Britain of workplace accidents and work-related ill health”

[14] Cyfrifwyd y ffigurau blynyddol yn y ddogfen hon drwy rannu gwerth presennol y gost neu'r buddiannau gyda ffactor flynyddol. Mae'r trawsffurfiad hwn yn rhoi ffigur sy'n cynrychioli llif blynyddol o gyllid sydd, pan roddir gostyngiad dros y cyfnod arfarnu o 10 mlynedd, yn gyfwerth â'r gwerth presennol. Ar gyfer y ddogfen hon y ffactorau blynyddol yw 9.36 ar gyfer buddiannau ac 8.61 ar gyfer costau.

da wneud unrhyw beth ychwanegol er mwyn cydymffurfio. Er mwyn mynd i'r afael â hyn, tybir mai dim ond cyfran o gyfanswm poblogaeth y busnesau a nodwyd ym mharagraff 10 fydd yn gwneud newidiadau ar ôl cyflwyno'r Map Llwybr. Ystyrir dwy sefyllfa, gan na wyddir beth yw cyfran y busnesau yr effeithir arnynt. Dangosir y sefyllfaoedd hyn yn nhabl 3. (At ddibenion esboniadol dim ond cyflogwyr a ystyrir yn y tabl hwn, er y defnyddir dull tebyg ar gyfer pobl hunangyflogedig.)

	Senario	
	Isel	Uchel
Y gyfran sy'n darllen y canllawiau:	30%	60%
Y nifer sy'n ymgyfarwyddo:	324,451	648,902
Cyfran y rhai sy'n ymgyfarwyddo, ac yna'n gweithredu:	20%	50%
Cyfran o'r cyfanswm sy'n gweithredu:	6%	30%
Cyfanswm y nifer sy'n gweithredu:	64,890	324,451

Tabl 3. Cydymffurfiaeth busnes gyda chyfeiriadau ar gyfer y Map Llwybr (cyflogwyr)

15. Bydd y costau'n ymddangos yn uchel i nifer o sefydliadau, yn enwedig busnesau bach a chanolig, oherwydd bod y Map Llwybr yn eang ei gwmpas. Ymhlith y costau ychwanegol bydd rhywfaint o gyflenwad cyfarpar, ymgyfarwyddo, hyfforddiant ychwanegol, ac ati. Ystyrir y costau hyn isod.

Sectorau busnes yr effeithir arnynt

16. Bydd y Map Llwybr arfaethedig yn effeithio ar fusnesau mawr, bach a chanolig ym mhob sector, ond nid i'r un graddau. Bydd rhai sefydliadau'n ymdrin â nifer fawr o weithrediadau cerbydau o raddau amrywiol o ran anhawster tra bydd eraill yn ymdrin â gweithrediadau cerbydau ysbeidiol neu anaml, a fydd hefyd o raddau amrywiol o ran anhawster.

17. Er mwyn amcangyfrif cyfanswm costau'r Map Llwybr, mae'n rhaid cyfrifo'r costau ar draws pob diwydiant. Oherwydd y gallai hyn effeithio ar unrhyw ddiwydiant os bydd yn cynnwys busnes sy'n defnyddio trafnidiaeth y gweithle, rhoddwyd amcangyfrifon o'r niferoedd, a gwnaed rhagdybiaethau ynghylch newidiadau mewn ymddygiad yn sgîl y Map Llwybr.

Costau Cydymffurfiaeth i Fusnesau

Ymgyfarwyddo

18. Bydd angen i reolwyr ymgyfarwyddo â'r Map Llwybr. Tybiwn y bydd angen 2 awr ar gwmnïau bach i ymgyfarwyddo â fframwaith y Map Llwybr ac yna cyfnodau byr o amser i gyfeirio at wybodaeth fanylach yn ôl yr angen. Bydd cwmnïau mawr yn cymryd yn hirach oherwydd mae'n debygol y bydd ganddynt weithrediadau cerbydau mwy cymhleth i'w rheoli. Ar gyfartaledd, ar draws pob menter tybiwn ei bod yn cymryd 5 awr i reolwyr ymgyfarwyddo â'r Map Llwybr newydd.

19. O ystyried cyflog cyfartalog rheolwr, sef £16 yr awr (yn cynnwys 30% ar gyfer costau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau) a'r poblogaethau a nodwyd gennym yn nhabl 3 cyfrifwn y bydd cyfanswm cost ymgyfarwyddo ar gyfer cyflogwyr yn y flwyddyn gyntaf rhwng £21 miliwn a £42.1 miliwn. Ar gyfer y busnesau hynny heb gyflogeion, bydd y gost ymgyfarwyddo rhwng £53.6 miliwn a £107.1 miliwn. Mae'r rhain yn gostau untro. Fodd bynnag, tybiwn mai 10% yw lefel y trosiant, sy'n golygu y bydd cyfran o'r costau hyn yn deillio o bob blwyddyn o'r cyfnod arfarnu.

20. Bydd cyfanswm y costau ymgyfarwyddo ar gyfer pob menter rhwng £74.6 miliwn a £149.3 miliwn. Bydd hyn yn digwydd yn ystod y flwyddyn gyntaf, a chost weithredu ydyw. Fel y trafodwyd uchod, bydd 10% o'r costau hyn yn deillio o bob un o'r blynyddoedd dilynol.

Costau hyfforddi

21. Cysylltwyd â diwydiant er mwyn cael y costau cyfartalog ym mhob un o'r meysydd canlynol*:*

- hyfforddiant a chymhwysedd
- gyrwyr sy'n ymweld a gyrwyr yr asiantaeth
- addasrwydd i yrru
- darpariaeth gwybodaeth
- asesiad risgiau a chyfrifoldebau'r rheolwyr
- cynllun y gweithle
- cyfranogiad a chanllawiau

22. Er na fyddai angen hyfforddiant ffurfiol ar bob un o'r 2.4 miliwn o weithwyr sy'n gyrru/gweithredu cerbydau'n helaeth, nod y Map Llwybr yw nodi lefelau hyfforddiant a chymhwysedd i'w cyflawni. Er enghraifft, ar gyfer wagenni codi y safon hyfforddiant gofynnol a ddisgwylir fyddai cydymffurfio â Chod Ymarfer Cymeradwy wagenni codi, yn ddelfrydol gyda'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan sefydliad hyfforddiant wagenni codi a gydnabyddir gan HSC. Mae ffynonellau'r diwydiant yn awgrymu y byddai angen hyfforddiant ychwanegol ar nifer sylweddol o weithwyr er mwyn bodloni'r Cod Ymarfer Cymeradwy. Yn gyffredinol, mae'n hysbys bod gweithwyr hunangyflogedig neu weithwyr o gwmnïau llai yn llai tebygol o fod wedi derbyn hyfforddiant digonol. Fodd bynnag, efallai y byddant yn dehongli bod eu profiad yn ddigonol i fodloni'r gofyniad “cymhwysedd".

23. Tybiwn fod y gyfran o yrwyr cyflogedig sy'n ymgymryd â hyfforddiant ar ôl cyflwyno'r Map Llwybr yr un peth â'r gyfran o fusnesau sy'n gweithredu, fel y nodir yn nhabl 3. Os bydd y cwrs hyfforddi perthnasol yn costio £350 y gweithiwr (yn cynnwys costau'r cwrs hyfforddi a chynhyrchiant a gollwyd), byddai cost gychwynnol hyfforddiant rhwng £43.5 miliwn a £217.6 miliwn.

24. Ar gyfer y rhai hunangyflogedig, tybiwn y bydd yr un gyfran ag ar gyfer y rhai a gyflogir yn ymgymryd â chwrs hyfforddi. Mae costau'r flwyddyn gyntaf rhwng £9.4 miliwn a £46.8 miliwn.

Rydym yn caniatáu cost reolaidd o 10% o'r costau cychwynnol hyn bob blwyddyn, er mwyn rhoi cyfrif am bersonél newydd sy'n ymuno â'r diwydiant, a rhoi hyfforddiant gloywi os bydd angen. Ynghyd â'r costau cychwynnol, costau polisi yw'r costau hyn.

Gyrwyr yr Asiantaeth

25. Mae'r Map Llwybr yn nodi y gwneir gwiriadau er mwyn sicrhau bod gyrwyr sy'n ymweld a gyrwyr yr asiantaeth yn gymwys. Tybir nad yw'r hunangyflogedig yn defnyddio staff yr asiantaeth ac mai dim ond hanner y cyflogwyr sy'n defnyddio staff yr asiantaeth. Ar gyfer y cyflogwyr sy'n cymryd camau gweithredu, fel y nodir yn nhabl 3, tybiwn fod sefydlu system reoli mewn perthynas â gyrwyr sy'n ymweld yn costio £1000, y cynhelir pum gwiriad ar staff yr asiantaeth, ar gyfartaledd bob blwyddyn, a bod pob gwiriad yn costio £50.

26. O dan y rhagdybiaethau hyn, bydd cyfanswm y costau cychwynnol rhwng £33.4 miliwn a £169 miliwn. Tybiwn y caiff cyfran (10%) o'r costau hyn eu gwario ym mhob blwyddyn ddilynol wrth i gwmnïau adolygu'r systemau presennol neu sefydlu rhai newydd. Yn ogystal â chostau gwirio gyrwyr asiantaeth newydd bob blwyddyn, bydd cyfanswm y costau rheolaidd rhwng £9.5 miliwn a £47.3 miliwn.

Addasrwydd i Yrru

27. Mae'r Map Llwybr yn cynnig y dylid asesu pob gyrrwr er mwyn sicrhau eu bod yn ddigon iach yn feddygol i wneud eu dyletswyddau. Tybiwn fod yr un gyfran o yrwyr, fel y gyfran o gwmnïau sy'n gwneud newidiadau ar ôl cyflwyno'r Map Llwybr (fel yn nhabl 3), yn cynnal archwiliadau meddygol yn y flwyddyn gyntaf, yn costio £150 y gwiriad. Golyga hyn y bydd cyfanswm costau'r flwyddyn gyntaf rhwng £18.7 miliwn a £93.3 miliwn. Tybiwn fod 10% o'r gyrwyr hynny yn cynnal y gwiriadau ym mhob blwyddyn ddilynol yn y cyfnod arfarnu.

Costau heb eu meintioli

28. Yn ogystal â'r costau a amlinellwyd uchod, efallai y bydd rhai costau pellach sy'n deillio o'r Map Llwybr. Ymhlith y rhain mae costau gweithredu newidiadau i gynllun y safle, newidiadau i brosesau gynnal a chadw a dewis cerbydau a gweithgarwch rheoli ac asesu risgiau ychwanegol. Nid yw'r costau hyn wedi'u meintioli.

Cyfanswm y Costau

29. Amcangyfrifir bod cyfanswm costau blwyddyn gyntaf y Map Llwybr rhwng £180 miliwn a £676 miliwn.

30. Amcangyfrifir bod gwerth presennol y costau a amlinellir uchod, dros y cyfnod arfarnu o ddeng mlynedd, rhwng £363.2 miliwn a £1.42 biliwn. Mewn termau blynyddol, gellir mynegi hyn fel rhwng £42.2 miliwn a £165,2 miliwn, yn y drefn honno.

Costau i HSE

31. Bydd angen hyfforddiant ar arolygwyr HSE er mwyn ymgyfarwyddo â'r Map Llwybr. Gan gymryd cyfartaledd wedi'i bwysoli o gyflogau arolygwyr gwahanol ar draws y bandiau gwahanol, amcangyfrifwn mai £26.58 yr awr yw cost amser arolygydd. At hynny, amcangyfrifwn y bydd yr ymgyfarwyddo a hyfforddi cychwynnol ar gyfer 600 o arolygwyr yn cymryd diwrnod, yn sgîl y pynciau eang eu cwmpas a gwmpesir gan y Map Llwybr. Mae hyn yn arwain at gost gychwynnol o £110,000 ar gyfer ymgyfarwyddo a hyfforddi'r holl arolygwyr sy'n debygol o fod yn ymwneud â hyn. Cost weithredu yw hon.

32. Pan fydd y Map Llwybr arfaethedig ar waith, disgwylir y bydd yn cynyddu baich gweithrediadau maes yn sgîl y ffaith y bydd yn rhaid ateb ymholiadau gan ddiwydiant. Pan gaiff y Map Llwybr ei gyflwyno, amcangyfrifir y bydd arolygwyr yn treulio'r hyn sy'n gyfwerth â 2 ddiwrnod o'u hamser yn ateb ymholiadau. Ar gyfer y 600 o arolygwyr, amcangyfrifir mai cost yr amser hwn fydd £223,000. Ar gyfer yr holl staff arall a allai fod yn cymryd rhan (h.y. tîm polisi, Llinell wybodaeth, ac ati), amcangyfrifir y byddai 70 o oriau staff yn cael eu treulio ar ateb ymholiadau yn y flwyddyn gyntaf. Amcangyfrifir mai tua £2000 y flwyddyn yw cost yr adnodd amser hon. Tybiwn y bydd swm yr ymholiadau yn lleihau'n sylweddol ar ôl y flwyddyn gyntaf, felly dim ond 10% o gostau'r ymholiadau fydd yn ailadrodd bob blwyddyn.

33. Mae'r Map Llwybr yn amlygu'r gofynion presennol a ddylai fod yn cael eu gorfodi gan HSE a'r Awdurdod Lleol eisoes. Nid yw'n debygol y bydd costau ychwanegol gorfodi yn sylweddol o ystyried bod y Map Llwybr yn atgyfnerthu'r hyn a argymhellir gan arfer da presennol. Felly, maent yn eithriadol o anodd eu hamcangyfrif.

34. Mae'n debygol y bydd cyfanswm y costau i HSE oddeutu £508,000 dros ddeng mlynedd mewn telerau gwerth presennol (£59,000 yn flynyddol). Cost weithredu yw hon.

Costau i Awdurdodau Lleol

35. Yn ogystal, bydd angen i swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion technegol, sy'n gyfrifol am arolygu yn y sectorau a orfodir gan yr awdurdod lleol, ymgyfarwyddo â'r Map Llwybr. Mae 3,640 o swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion technegol, sy'n gyfwerth â 1,070 o weithwyr amser llawn. Os tybiwn fod pob un o'r 3,640 o swyddogion yn treulio traean o ddiwrnod yn ymgyfarwyddo â'r Map Llwybr, yna mae hyn yn gyfwerth â phob un o'r gweithwyr cyfwerth amser llawn yn treulio diwrnod cyfan (yr un peth ag arolygwyr HSE).

36. Mae Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd yn amcangyfrif bod y cyflog blynyddol cyfartalog ar gyfer Swyddogion Iechyd yr Amgylchedd yn £24,678 a £20,231 ar gyfer Technegwyr Iechyd yr Amgylchedd. Gan gymryd y bydd 220 o ddiwrnodau gwaith y flwyddyn a 7 awr mewn diwrnod gwaith, a bod costau llafur nad ydynt yn gysylltiedig â chyflogau yn

ychwanegu traean at gostau cyflog, y cyflog cyfartalog fesul awr yw tua £21 yr awr. Felly, amcangyfrifir mai £120,000 yw cost gychwynnol ymgyfarwyddo.

37. Fel gydag arolygwyr HSE, bydd baich cynyddol ar swyddogion iechyd yr amgylchedd a swyddogion technegol yn sgîl y ffaith y bydd yn rhaid iddynt ateb ymholiadau gan ddiwydiant. Pan gaiff y Map Llwybr ei gyflwyno am y tro cyntaf, amcangyfrifir y bydd yr 1,070 o swyddogion cyfwerth ag amser llawn yn treulio tua 2 ddiwrnod o'u hamser yn ateb ymholiadau (sy'n gyfwerth â'r amser a dreulir gan arolygwyr yr HSE). Gan dybio'r un gost cyflogau â'r uchod, amcangyfrifir bod hyn yn £240,000. Tybiwn y bydd swm yr ymholiadau yn lleihau'n sylweddol ar ôl y flwyddyn gyntaf, felly dim ond 10% o gostau'r ymholiadau fydd yn ailadrodd bob blwyddyn.

38. Amcangyfrifwyd mai cyfanswm y gost i awdurdodau lleol o weithredu'r Map Llwybr yw £360,000 yn y flwyddyn gyntaf, gyda chostau parhaus o £36,000 y flwyddyn. Amcangyfrifir bod hyn tua £634,000 dros ddeng mlynedd mewn termau gwerth presennol, neu £74,000 y flwyddyn.

Effeithiau ar yr Amgylchedd

39. Ni ddisgwylir unrhyw effeithiau amgylcheddol o'r cynigion hyn.

Cyfanswm y costau i gymdeithas

40. Mae cyfanswm y costau i gymdeithas yn amrywio o £364 miliwn i £1.4 biliwn. Mewn telerau blynyddol, mae'r rhain yn £43 miliwn a £165 miliwn, yn y drefn honno.

41. Costau gweithredu rhagweledig yw mwyafrif y costau hyn. Er bod y costau'n ymddangos yn uchel, dylid nodi bod y costau fesul blwyddyn rhwng £24 miliwn a £98 miliwn. Y prif resymau pam mae'r costau agregol yn ymddangos yn uchel yw'r ffaith bod y Map Llwybr yn eang ei gwmpas.

EFFAITH AR FUSNESAU BACH A CHANOLIG

42. Mae'n anodd cyfrifo'r union gost i fusnesau bach a chanolig yn sgîl gwella eu safleoedd gwaith yn unol â'r Map Llwybr, gan fod pob busnes yn debygol o fod ar gam gwahanol o ran parodrwydd. Fodd bynnag, nid oes unrhyw gostau'n debygol o godi o hyn a fyddai'n cynrychioli baich afresymol, neu anghymesur, ar fusnesau bach a chanolig. Mae hyn oherwydd ein bod yn cydnabod bod rhai dulliau cymharol rhad i gyflawni'r canlyniad dymunol, er enghraifft llinellau wedi'u peintio i nodi llwybrau i gerddwyr a cherbydau. Cadarnhawyd hyn drwy ymgynghoriad gyda nifer o fusnesau bach.

ASESU CYSTADLEUAETH

43. Bydd Map Llwybr Trafnidiaeth y Gweithle yn cwmpasu pob un o sectorau'r diwydiant.

44. Bydd gwahanol strwythurau gan bob un o'r gwahanol ddiwydiannau yr effeithir arnynt, ond dylai'r Map Llwybr gael effaith gyffredinol ar gystadleuaeth. Hynny yw, oherwydd bydd y costau, pan fyddant yn

digwydd, yn gymesur â maint y cwmni, ac yn berthnasol i'r holl gwmnïau presennol a darpar gwmnïau fel ei gilydd, ni effeithir ar strwythur y farchnad na chystadleuaeth.

CYMHARU COSTAU A BUDDIANNAU

45. Amcangyfrifwyd bod cyfanswm cost cyflwyno'r Map Llwybr rhwng £364 a £1.4 biliwn dros ddeg mlynedd, o ran y gwerthoedd presennol (2005). Amcangyfrifwyd bod y buddiannau posibl, sef rhwng gostyngiad o 10% ac 20% mewn anafiadau o ddamweiniau trafnidiaeth y gweithle, rhwng £332 miliwn a £663 miliwn mewn termau gwerth presennol, dros y cyfnod arfarnu.

Ansicrwydd

46. I raddau helaeth, bydd y gost o weithredu Map Llwybr Trafnidiaeth y Gweithle yn dibynnu ar sut y cânt eu dehongli gan ddiwydiant. Os yw diwydiant eisoes yn defnyddio arfer gorau, ni ddylai fod unrhyw gostau ychwanegol. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, efallai y bydd y Map Llwybr yn amlygu bod arferion gwaith presennol bellach yn anaddas. Os mai dyma yw'r achos, mae'n debygol y bydd costau sylweddol. Mater ansicr iawn yw rhagweld sut y bydd diwydiant yn ymateb i'r wybodaeth newydd hon ac yn ei dehongli.

Nifer yr unigolion sy'n gyrru cerbydau Trafnidiaeth y Gweithle

47. Yn sgîl problemau amcangyfrif ffigur o'r fath, mae nifer y bobl sy'n gyrru cerbydau trafnidiaeth y gweithle yn ansicr. Ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr y diwydiannau perthnasol amcangyfrifwn y bydd nifer y bobl sy'n gyrru cerbydau yn y gweithle oddeutu 2 filiwn. Os bydd nifer y gyrwyr yn uwch, bydd costau gweithredu'r Map Llwybr yn uwch, ond bydd y buddiannau hefyd yn uwch oherwydd y dylid diogelu nifer uwch o bobl rhag damweiniau.

Ansicrwydd arall

48. Ni wyddir nifer y busnesau y bydd y canllawiau a nodir yn y Map Llwybr yn effeithio arnynt (ac yn gweithredu ar y canllawiau hynny). Er mwyn mynd i'r afael â'r ansicrwydd hwn, ystyriwyd amrywiaeth o werthoedd er mwyn ceisio cwmpasu'r effeithiau tebygol.

49. Mae canran y gostyngiad mewn damweiniau Trafnidiaeth y Gweithle hefyd yn ansicr. Yn yr RIA rydym wedi tybio y bydd gostyngiad o 10% a 20%, ond mae hyn yn seiliedig ar dargedau Rhaglen Flaenoriaethu yn hytrach na thystiolaeth benodol. Yn ogystal, dylid nodi bod camau gweithredu uwch gan ddiwydiant yn debygol o atal mwy o ddamweiniau, ac felly cronni lefelau uwch o fudd-daliadau, ond gan beri costau uwch posibl hefyd.

TREFNIADAU AR GYFER MONITRO A GWERTHUSO

50. Bydd y cynigion hyn yn destun adolygiad ffurfiol gan y Comisiwn ar ôl 4 blynedd. Yn ogystal, cânt eu monitro gan HSE yn ystod y cyfnod hwnnw.

GORFODI A SANCSIYNAU

51. Gan ddibynnu ar sector y diwydiant dan sylw, caiff y Map Llwybr ei hyrwyddo a'i fonitro gan naill ai'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch neu gan Awdurdodau Lleol. Y rheoliadau iechyd a diogelwch sy'n sail i'r Map Llwybr yw'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith 1999; Rheoliadau'r Gweithle (Iechyd, Diogelwch a Lles) 1992; Rheoliadau Darparu a Defnyddio Cyfarpar Gwaith 1998; a Rheoliadau Gweithrediadau Codi a Chyfarpar Codi 1998.

52. Disgwylir i nifer y defnyddwyr fod yn uchel, yn sgîl y defnydd o arfer da presennol yn y diwydiant a lefelau prynu i mewn yn y diwydiant a gyflawnir drwy rwydweithio helaeth a gweithdai cyn ymgynghori.

53. Nodir cydymffurfiaeth wael drwy ymateb i ymholiadau, ymchwilio i ddamweiniau a digwyddiadau, a gwiriadau rheolaidd gan arolygwyr. Efallai y bydd arolygwyr yn cynnig gwybodaeth a chyngor i ddeiliaid dyletswyddau. Lle y bo'n briodol efallai y cymerir camau gorfodi yn unol â Datganiad Polisi Gorfodi HSC.

54. Mae Deddf Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith ac ati 1974, adran 33 (fel y'i diwygiwyd) yn nodi'r troseddau a'r cosbau uchaf posibl o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.

55. Caiff effaith y Map Llwybr ei asesu dros amser drwy fonitro adroddiadau ar farwolaethau, anafiadau a damweiniau fu bron â digwydd, a gyflwynir gan ddeiliaid dyletswyddau.

Cyswllt ar gyfer Asesiad Effaith:

Colin Chatten

HSE Injuries Reduction Programme Team 2.

Floor 8, North Wing, Rose Court, London, SE1 9HS

Ffôn 0207 717 6840

COPI O HOLIADUR YR YMGYNGHORIAD

Copi o'r holiadur i'w gwblhau â llaw

Cyfarwyddiadau ar gyfer ei gwblhau
Cwblhewch y blychau, gan ysgrifennu mor glir â phosibl. Lle ceir cyfres o flychau ticio, ticiwch un blwch yn unig. Lle y bo'n briodol, ticiwch flwch a rhowch esboniad o'ch ateb yn y blwch a ddarperir isod. Ticiwch flwch a rhowch ateb ysgrifenedig os yn bosibl oherwydd po lawnaf yw'r wybodaeth a dderbyniwn, y gorau y gallwn gynrychioli eich barn. Os bydd yn angenrheidiol, parhewch i nodi eich atebion ar ddalen o bapur ar wahân, gan nodi'n glir eich bod wedi gwneud hynny a pha gwestiwn yr ydych yn ei ateb ar y daflen atodol.

Rhowch rywfaint o wybodaeth gefndir amdanoch eich hun a'ch sefydliad.

Teitl	Enw cyntaf	Cyfenw
Sefydliad		
Cyfeiriad 1		
Cyfeiriad 2		
Tref		
Sir		
Cod post		
Cyfeiriad E-bost	Rhif ffôn	Rhif ffacs (dewisol)
Nifer y cyflogeion yn eich sefydliad		
Eich rôl yn y sefydliad		

1. Cynllun a Dyluniad y Safle

C1. A yw'n glir o'r cynigion fel y'u nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni gofynion y map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	
Ddim yn gwybod	

C1a. Nodwch unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar y cynnig yn y blwch isod.

C2. Beth fyddai'r effaith ar eich busnes petaech yn trefnu'r safle fel bod symudiadau cerbydau'n cael eu dileu neu eu bod mor fach â phosibl? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cadarnhaol	
Negyddol	
Ddim yn gwybod	

C2a. Nodwch unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar yr effaith ar eich busnes yn y blwch isod.

C3. A yw'r map llwybr yn rhoi digon o fanylion i chi allu adeiladu a chynllunio'r safle mewn ffordd i'w gwneud yn ddiogel i'r bobl a'r cerbydau sy'n ei ddefnyddio? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C3a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

2. Dewis cerbydau a'u cynnal a'u cadw

C4. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	
Ddim yn gwybod	

C4a. Nodwch unrhyw sylwadau a allai fod gennych ar y cynnig yn y blwch isod.

C5. A yw'n amlwg mai'r cerbydau a ddefnyddir gennych yw'r rhai mwyaf addas ar gyfer y dasg dan sylw? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C5a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C6. A oes gan yrwyr rôl i wirio bod eu cerbyd yn ddiogel a chyflwyno adroddiad ar unrhyw broblemau i gyflogwyr/deiliaid dyletswyddau? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C6a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

3. Personél

3.1 Cymhwysedd

C7. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod, yna nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	

C7a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C8. A yw ystyr cymhwysedd (*sicrhau bod gan weithwyr y sgiliau a'r wybodaeth i wneud eu gwaith yn ddiogel*) yn glir o'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	

Ddim yn gwybod	

C8a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C9. I ba raddau y dylai cymhwysedd gwmpasu ystyried hyfforddiant a chymwysterau person? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Yn sylweddol	
Yn gymedrol	
Rhywfaint	
Dim o gwbl	

C9a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C10. A yw asesu rheolaidd yn bwysig? Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C10a. Rhowch sylwadau ar eich dealltwriaeth o asesu rheolaidd.

C11. A yw hyfforddiant gloywi yn bwysig? Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C11a. Rhowch sylwadau ar eich dealltwriaeth o hyfforddiant adfywio.

C12. A ddylem ddweud mwy yn y map llwybr am allu corfforol person i yrru? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	

Ddim yn gwybod	

C12a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

3.2 Addasrwydd i Yrru

C13. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	

C13a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C14. A ydym wedi cyflawni cydbwysedd rhesymol ar faterion iechyd a meddygol? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cydbwysedd da	
Dim cydbwysedd da na chydbwysedd gwael	
Cydbwysedd gwael	
Ddim yn gwybod	

C14a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C15. A oes angen i ni ddarparu mwy o fanylion ar faterion iechyd a meddygol? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C15a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C16. A gredwch y dylai'r asesiad fod yn un meddygol (h.y. un a gynhelir gan feddyg neu weithiwr proffesiynol arall ym maes iechyd)? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod. Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C16a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C17. Yn y map llwybr, trafodwn yr angen am 'asesiadau addasrwydd rheolaidd'. Drwy hyn, golygwn raddfa symudol, yn seiliedig ar angen a natur y gwaith dan sylw, e.e. Ar ben uchaf y raddfa gall hyn olygu asesiad meddygol llawn a gynhelir gan feddyg neu weithiwr proffesiynol arall ym maes iechyd ac ar ben arall y raddfa gall olygu holiadur hunanasesu. A gredwch mai dyma'r dull cywir? Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C17a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

3.3 Gyrwyr/Gweithredwyr sy'n Ymweld a Gyrwyr/Gweithredwyr yr Asiantaeth

C18. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod, yna nodwch unrhyw sylwadau ychwanegol yn y blwch isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	
Ddim yn gwybod	

C18a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C19. A yw cyfarwyddiadau'n ofynnol ar gyfer gyrwyr/cerddwyr sy'n ymweld â'r safle? Os ydych yn cytuno neu'n anghytuno yn y bôn, ticiwch y blwch priodol a defnyddiwch y blwch sylwadau i amlinellu eich amheuon.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C19a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod. **Yn arbennig, efallai yr hoffech roi sylwadau ar yr hyn y byddech yn ei ystyried yn fformat addas ar gyfer unrhyw gyfarwyddiadau.**

4. Cyfrifoldebau Rheolwyr

4.1 Rheolwyr ac Asesiad Risgiau

C20. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	
Ddim yn gwybod	

C20a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C21. A ddylem ddweud mwy am y broses o reoli gweithwyr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C21a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C22. A yw'r gweithwyr yn deall eu cyfrifoldebau? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C22a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

4.2 Cysylltiadau

C23. A yw'n glir o'r cynnig fel y'i nodir yr hyn sy'n rhaid i chi ei wneud er mwyn bodloni'r map llwybr? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Clir	
Nid yw'n glir nac yn aneglur	
Aneglur	
Ddim yn gwybod	

C23a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C24. Pa mor hawdd fyddai i rannu gwybodaeth am sut i weithio'n ddiogel? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Hawdd	
Niwtral	
Anodd	
Ddim yn gwybod	

C24a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C25. A oes systemau ar waith i ddatrys anghytundeb am iechyd a diogelwch? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C25a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

Cwestiynau cyffredinol
C26. Cyfeiriwyd at y cynigion hyn fel map llwybr. A gredwch fod yr enw'n esbonio'r hyn a olygir yn glir? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C26a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod. Os ydych yn anghytuno, efallai y byddwch yn dymuno awgrymu enw arall ar gyfer y cynigion.

C27. A ydych yn cefnogi'r dull a awgrymwyd gennym? Os nad ydych, beth hoffech ei weld yn lle hynny. Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C27a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C28. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw sylwadau yr hoffech eu gwneud ar gostau a buddiannau cymharol y cynigion (tudalen 19)

Sylwadau

C29. A oes unrhyw gategorïau gyrwyr neu sefydliadau y dylid eu heithrio o'r cynigion hyn? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C29a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

C30. A oes unrhyw feysydd lle y credwch y gall canllawiau neu gyngor penodol fod yn angenrheidiol? Ticiwch un blwch o'r opsiynau isod.

Cytuno	
Anghytuno	
Ddim yn gwybod	

C30a. Nodwch unrhyw sylwadau yn y blwch isod.

Anfonwch eich holiadur wedi'i gwblhau drwy'r post at:

Carol Spence
8NW Rose Court,
2 Southwark Bridge
London
SE1 9HS

Ffôn: 020 7 717 6127
E-bost: carol.spence@hse.gsi.gov.uk